Adran Gwaith a Phensiynau

# Cynllunydd Addasiadau nodiadau ategol

## Defnyddio codau QR i fynd i wefannau

I sganio cod QR:

1. agorwch y camera neu ap sganio cod QR ar eich ffôn
2. daliwch eich ffôn fel bod y cod QR yn ymddangos mewn golwg
3. dewiswch y ddolen i fynd â chi i'r wefan.

## Beth yw addasiad i'r gweithle?

Mae addasiadau i'r gweithle yn aml yn newidiadau syml sy'n cael gwared ar rwystrau i bobl anabl, ac yn eu galluogi i ffynnu yn y gwaith. Gall addasiadau gynnwys:

- offer arbenigol, caledwedd a dodrefn
- addasiadau cit neu dechnoleg, fel meddalwedd gynorthwyol neu offer ergonomig
- addasiadau meddal fel patrymau gwaith gwahanol neu le tawel i eistedd mewn swyddfa, a
- addasiadau dynol fel gweithiwr cymorth neu Ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod dyletswydd ar gyflogwyr i wneud addasiadau rhesymol os ydynt yn gwybod bod gweithiwr anabl eu hangen, neu os gellid bod wedi 'disgwyl yn rhesymol iddynt wybod'.

Mae'r gair 'rhesymol' yn bwysig ac mae profion yn y gyfraith i benderfynu a yw addasiad yn rhesymol ai peidio. Nid yw pob addasiad yn rhesymol ar gyfer pob swydd, gweithle neu broffesiwn, ond mae llawer ohonynt yn rhesymol.

Wrth wneud cais am swydd, dylid gofyn i chi a oes angen unrhyw addasiadau arnoch ar bob cam o'r broses recriwtio. Ni chaniateir i gyflogwyr ofyn i chi am anabledd neu gyflyrau iechyd yn ystod proses recriwtio neu gyfweliad, felly siaradwch am yr addasiadau sydd eu hangen arnoch, nid eich anabledd.

## Dolenni defnyddiol Addasiadau Rhesymol

I gael gwybodaeth am addasiadau rhesymol yn y gweithle, chwiliwch am "**employment workplace adjustments**" yn:

**www.equalityhumanrights.com**

**www.acas.org.uk**

## Cyflwyniad i'r Cynllunydd Addasiadau

Mae'r Cynllunydd Addasiadau yn ddogfen gyfrinachol, bersonol sy'n perthyn i chi, ac nid oes rhaid i chi ei rhannu ag unrhyw un. Ni ellir ei rannu ag eraill heb eich caniatâd.

## Sut y gallai'r Cynllunydd Addasiadau helpu

Mae'r Cynllunydd Addasiadau yn declyn defnyddiol i'ch cefnogi i:

- symud ymlaen i addysg uwch
- ymgymryd â gwaith yn ystod y tymor, neu
- symud i gyflogaeth drwy eich galluogi i gynllunio eich dyfodol.

Gall y Cynllunydd Addasiadau eich cefnogi trwy:

- eich helpu i feddwl am unrhyw gymorth neu drefniadau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnoch tra byddwch yn fyfyriwr neu yn y gweithle
- codi ymwybyddiaeth o gymorth mewn addysg, gan gynnwys Lwfans Myfyrwyr Anabl
- cefnogi cais Mynediad at Waith am gymorth ychwanegol.

Gall y cynllunydd:

- eich paratoi ar gyfer cyfweliad drwy ddarparu strwythur i'ch cefnogi i gael sgyrsiau mwy hyderus gyda chyflogwyr posibl am eich gofynion gwaith, addasiadau a chefnogaeth yn y gwaith
- eich cefnogi i wneud cais am Fynediad at Waith drwy leihau'r angen am asesiad Mynediad at Waith.

## Sut i gwblhau eich Cynllunydd Addasiadau

Gallwch gwblhau'r Cynllunydd Addasiadau fel copi rhyngweithiol/digidol a'i gadw i'ch ffeiliau, neu gallwch ei argraffu a'i gwblhau gyda phen.

Gallwch gwblhau'r Cynllunydd Addasiadau eich hun, neu ofyn i rywun sy'n eich adnabod am help i gwblhau'r cynllunydd.

Gallwch ddiweddaru'r Cynllunydd Addasiadau ar unrhyw adeg i adlewyrchu newidiadau yn eich gofynion neu'ch anghenion cymorth. Mae hyn yn eich un chi i'w gadw.

## Gwneud cais am help

### Lwfans Myfyrwyr Anabl

Os oes angen cymorth arnoch wrth astudio, siaradwch â'r tîm cymorth i fyfyrwyr a all eich cynghori am y cymorth y gallant ei ddarparu neu gynghori sut y gallwch wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Mae Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA) yn gymorth i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag astudio sydd gennych oherwydd problem iechyd meddwl, salwch hirdymor neu unrhyw anabledd arall.

Chwiliwh am "**DSA**" i ddarganfod mwy:

Lloegr: **www.gov.uk**

Yr Alban: **www.saas.gov.uk**

Cymru: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Mynediad at Waith

Os oes angen cymorth arnoch i ymgymryd â swydd ran-amser neu symud i gyflogaeth, gallwch gysylltu â Mynediad at Waith i gael cyngor neu wneud cais am gymorth. Gall swydd neu waith gynnwys hunangyflogaeth, prentisiaeth, profiad gwaith neu interniaeth â chymorth.

Mae Mynediad at Waith yn grant gan y llywodraeth sydd ar gael i helpu i dalu costau cymorth yn y gweithle. Gallai cymorth gan Mynediad at Waith gynnwys:

- cyllid ar gyfer offer arbenigol i'ch cefnogi i wneud eich gwaith
- cymorth i fynd i'r gwaith a/neu gefnogaeth pan fyddwch mewn gwaith
- gweithiwr cymorth neu gefnogaeth hyfforddi swydd
- cymorth cyfathrebu mewn cyfweliad swydd os:
  - rydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw ac mae angen dehonglydd BSL neu ddarllenydd gwefusau
  - mae gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu anhawster dysgu ac mae angen cymorth cyfathrebu.

Am fwy o wybodaeth am Fynediad at Waith ewch i **www.gov.uk/mynediad-at-waith**

## Dolenni defnyddiol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

Mae gan yr ONS wybodaeth am restr galwedigaethau safonol, a data cyflogaeth. Am fwy o wybodaeth ewch **www.ons.gov.uk** neu sganiwch y cod QR.

Rhestrir mathau o gyflogaeth o dan 9 pennawd grŵp. Chwiliwch am **"SOC 2020 Volume 1: structure and descriptions of unit groups"**.

I gael data am anabledd a chyflogaeth, chwiliwch am **"datasets for disability and employment"**.

## Sianeli cyfryngau cymdeithasol DWP

Dyma gyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol sy'n cael eu defnyddio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP):

**www.youtube.com/dwp**

**www.facebook.com/dwpyngymraeg**

**www.x.com/dwpyngymraeg**

**www.instagram.com/dwpgovuk**

**www.linkedin.com/company/dwp**

## Fideo Iaith Arwyddion Prydain DWP

**www.youtube.com/dwpsign**